Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Penygloddfa

**Lôn yr Ysgol**
**Y Drenewydd**
**Powys**
**SY16 2DF**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Penygloddfa

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Penygloddfa |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 272 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 238 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 0 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 14.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | 9.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 9.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 3.4% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 06/06/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 11/11/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir a chytun ar gyfer gwella’r ysgol. Maent yn gweithio’n effeithiol gyda staff a llywodraethwyr i roi lles a hapusrwydd disgyblion yn ganolog i’w gwaith. Dros gyfnod, maent wedi datblygu cwricwlwm eang ac ysgogol sy’n canolbwyntio ar ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

Mae staff yn darparu amgylchedd anogol lle mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel a bod staff yn gwrando arnynt. Maent yn ffurfio perthnasoedd cynnes ac ymddiriedus â disgyblion ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu hymddygiad.

Mae athrawon yn cynllunio’n effeithiol i sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae’r ysgol yn cefnogi disgyblion yn dda i ddatblygu fel cerddorion, ac o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cyfleoedd i ymarfer a mireinio eu medrau cerddorol.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag ADY yn gryfder. Mae staff yn ystyried anghenion disgyblion yn ofalus ac yn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd dysgu i sicrhau bod anghenion pob un o’r disgyblion yn cael eu diwallu.

Mae’r ysgol wedi ymgorffori ymagwedd lwyddiannus at addysgu a dysgu’r Gymraeg. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol o dda yn datblygu eu medrau llafaredd Cymraeg.

Mae athrawon yn defnyddio adborth yn effeithiol i gynorthwyo disgyblion i wella’u gwaith yn ystod gwersi. Maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso’r medrau maent yn eu caffael i’w gwaith ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid ydynt yn cefnogi disgyblion yn briodol i gymhwyso’u medrau ar lefel ddigon uchel neu ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol effeithiol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu’r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Sicrhau bod athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion iau ddatblygu eu medrau dysgu’n annibynnol ac i ddisgyblion hŷn gymhwyso’u medrau llythrennedd a rhifedd ar lefel briodol heriol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r pennaeth wedi sefydlu tîm ysgol gyfan gyda gweledigaeth glir a strategol yn canolbwyntio'n gadarn ar gynhwysiant, dysgu a lles. Mae arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol fel diwygio ADY a datblygu'r Gymraeg yn bwrpasol. Maent yn cynorthwyo staff i ddatblygu i fod yn arweinwyr effeithiol trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol llwyddiannus. Mae staff yn ymgymryd ag ystod eang o brosiectau ystyrlon yn seiliedig ar ymholi, sydd wedi'u cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol.

**Ciplun: Diwallu anghenion disgyblion ag ADY**

Mae'r ysgol wedi defnyddio cyfleoedd dysgu proffesiynol yn dda i gefnogi diwygio ADY. Mae staff wedi ymgymryd ag ymchwil a datblygiad i fireinio'u hymagwedd at ddiwallu anghenion unigol disgyblion yn gadarn. Mae staff yn cynnal cyfathrebu cryf â rhieni am gynnydd eu plentyn, ac ar y cyd â gwaith partneriaeth llwyddiannus ag asiantaethau allanol, mae'r ysgol yn sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu nodi'n brydlon a'u bod yn derbyn cymorth unigol effeithiol.

Mae staff yn datblygu perthnasoedd gwaith buddiol cadarnhaol â disgyblion. Mae disgyblion yn hyderus y bydd staff yn gwrando ar eu safbwyntiau, eu barn a'u pryderon ac y bydd ymateb priodol i'r rhain. Ar draws yr ysgol, mae gan staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad disgyblion, gan annog parch a chydweithio. Mae disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o werthoedd yr ysgol ac yn ymddwyn yn dda yn ystod dysgu a chwarae.

Mae gan ddisgyblion rôl addas mewn pennu beth maent yn ei ddysgu, a sut. Maent yn gwybod y bydd staff yn gwrando'n ofalus ar eu hawgrymiadau ac yn defnyddio'u syniadau wrth gynllunio profiadau dysgu. Dros gyfnod, mae staff sylfaen wedi creu amgylchedd dysgu amrywiol ac ysgogol sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu eu syniadau a'u dealltwriaeth ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion iau ddatblygu eu hannibyniaeth a gwella'u medrau datrys problemau yn gyfyngedig.

Mae staff yn cydweithio'n dda, gan gyfuno'r wybodaeth a'r profiad a enillwyd trwy ddysgu proffesiynol i greu cwricwlwm eang, cytbwys a chyfannol. Mae disgyblion yn datblygu a chymhwyso'u dealltwriaeth o ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol a diwylliannol yn rheolaidd trwy ystod o destunau difyr. Mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o hunaniaeth, hawliau ac eirioli yn dda. Caiff darpariaeth ar gyfer datblygu'r celfyddydau mynegiannol ei hymgorffori'n dda. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag ADY a'r rhai sydd wedi eu heffeithio gan anfantais economaidd-gymdeithasol, yn cael cyfleoedd i ddysgu chwarae offeryn cerddorol. Mae disgyblion yn mwynhau perfformio fel aelodau o grŵp band pres llwyddiannus yr ysgol.

Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio holi effeithiol i ymestyn syniadau a dealltwriaeth disgyblion. Mae gwersi'n symud ar gyflymdra addas ac mae athrawon yn defnyddio ystod o wybodaeth asesu i sicrhau eu bod yn addasu dysgu disgyblion yn briodol i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'r ysgol wedi datblygu a mireinio'i hymagwedd at roi adborth effeithiol i ddisgyblion yn ystod gwersi, ac mae disgyblion

yn ymateb yn bwrpasol i'r adborth llafar a gânt i wneud gwelliannau amserol i'w gwaith. Mae staff addysgu a chynorthwywyr addysgu yn cydweithio'n dda i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau iaith a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth fathemategol dros gyfnod.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando cryf a gallant drafod ac esbonio'u dysgu yn hyderus. Maent yn datblygu cariad at ddarllen o oedran cynnar. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu rhuglder ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r testunau y maent yn eu darllen. Maent yn dechrau ehangu eu dewisiadau darllen yn unol â'u diddordebau eu hunain, ac erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn mynegi eu gwybodaeth yn hyderus am y llyfrau a'r awduron y maent yn eu mwynhau. Mae disgyblion iau yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol. Maent yn trefnu a dilyniannu digwyddiadau yn gywir wrth ysgrifennu brawddegau syml. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn ymgymryd yn gadarnhaol â gweithgareddau ysgrifenedig ac yn cydweithio'n dda i ddatblygu eu syniadau yn eu gwaith ysgrifenedig.

Mae disgyblion iau yn datblygu gwybodaeth gadarn am gysyniadau mathemategol, ac yn cymhwyso medrau rhifedd yn dda, er enghraifft wrth ddefnyddio clorian i falansio pwysau eu modelau draenog a wnaed â thoes chwarae. Wrth iddynt wneud cynnydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymestyn cymhwyso medrau rhifedd yn dda, er enghraifft trwy gyfrifo elw a cholled wrth ymgymryd â gweithgareddau entrepreneuraidd. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio technoleg yn fedrus at ystod o ddibenion, yn cynnwys cofnodi eu llais eu hunain i'w fewnforio mewn prosiect cerddorol. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion hŷn gymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd ar lefel ddigon heriol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

**Ciplun: Datblygu gwybodaeth disgyblion am ddiwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg**

Ar draws yr ysgol, mae staff wedi ymrwymo i sicrhau bod treftadaeth a diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg yn treiddio trwy'r cwricwlwm. Mae bron pob un o'r staff yn modelu'r defnydd o'r Gymraeg yn effeithiol ac mae disgyblion yn elwa ar ystod helaeth o gyfleoedd i ddefnyddio a chymhwyso'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth ac ar y maes chwarae. Mae 'Criw Cymraeg' yr ysgol yn cynnal gwasanaethau wythnosol lle byddant yn dathlu'r Gymraeg a'i diwylliant. Maent yn cyflwyno gemau Cymraeg ac yn cydnabod cynigion disgyblon i feistroli'r iaith. Mae'r ysgol yn achub ar gyfleoedd i gymryd rhan yn yr Eisteddfod Genedlaethol, gan gystadlu'n rheolaidd ac yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol yn datblygu eu medrau Cymraeg.

Mae'r pennaeth yn gweithio gyda staff yn effeithiol i feithrin perthnasoedd cadarnhaol ar draws yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae grwpiau cerddoriaeth yr ysgol yn perfformio yn y gymuned leol, ac mae disgyblion yn gweithio'n dda gydag elusennau lleol i ddarparu cymorth ar gyfer teuluoedd mewn angen. Mae 'Rhyfelwyr Lles' ('Wellbeing Warriors') yr ysgol yn danfon cardiau ac anrhegion Nadolig a mins peis i dai lleol, ac wedi gwneud cais llwyddiannus am grantiau i gefnogi'r ysgol ymhellach. Mae grŵp rhieni 'Ffrindiau Ysgol Penygloddfa' yn cefnogi'r ysgol yn weithgar.

Mae gan gorff llywodraethol yr ysgol ran lawn yng ngwaith yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn cynnal ymweliadau rheolaidd i ymuno â staff wrth ymgymryd â gweithgareddau monitro. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi eu dealltwriaeth o gynnydd yr ysgol tuag at flaenoriaethau gwella yn dda. Mae llywodraethwyr yn gweithio'n agos gyda'r pennaeth i reoli adnoddau'r ysgol yn effeithlon. Maent yn defnyddio cyllid grant yn effeithiol i sicrhau bod disgyblion o aelwydydd incwm isel yn gallu cymryd rhan yn llawn yng nghwricwlwm yr ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/01/2025